# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Ionawr 2024 – Cyfrol 9 – Rhifyn 4


## Neges ar ddechrau blwyddyn newydd

Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr a diolch i chi am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i bawb sy'n cyfrannu at y *Llais*, a'i wneud yn gylchgrawn diddorol. Yn bennaf oll, rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r ychydig rai sy'n danfon, yn cydlynu a chyfieithu, ac yn cysodi'r cyfan i'w argraffu bob mis. Byddai pâr arall o ddwylo'n help mawr! Os ydych chi'n meddwl y gallwch ein helpu ni mewn rhy fodd, dewch i ymuno â'r pwyllgor sy'n cyfarfod unwaith y mis. Mae Llandyrnog yn gymdogaeth arbennig iawn ac mae'r *Llais* yn help i dynnu ni i gyd at ein gilydd. Edrychwn ymlaen at ragor o gyffro yn 2024.

*Ruth Griffith*
*Cadeirydd*
*Pwyllgor Llais Llandyrnog*




**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o'r *Llais*, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

## I fyny â hi!





Diolch o galon i Carol a Glyn Davies am dalu am y goeden Nadolig unwaith eto eleni. Hefyd, diolch yn fawr i Phil Rose, Arwyn Evans, David Weyman, Hazel Wright, Emyr Morris a Bryn Davies am ei chodi.

# Pytiau newyddion y pentre

Cydymdeimlwn yn ddwys â theuluoedd Brenda Williams, Nant Glyd; Gwynfor Jones Nant Glyd, ac Ed Chaloner, Ty'n y Caeau.

Llongyfarchiadau i Penny a Tom Hughes, The White Horse ar enedigaeth eu merch, Hollie Grace – chwaer fach Thomas, Rhys, Lydia, Dylan, Darcie, Scarlett, Michael ac Eddie.

Dymuniadau da i Bernard Thomas, Trefnant ac i Rhian Pierce, Plas Dolben, ar ôl eu damweiniau, ac i Dei Owen ar ôl ei driniaeth yn yr ysbyty. Hefyd i Earle and Elaine Wright, Parc Tŷ'n Llan, wrth symud i fyw ym Mhenarlâg.

Cododd bore coffi'r Gymdeithas Hanes £280 tuag at y coffrau – diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.

Roedd yr Hwb yn brysur ym Mhafiliwn Cae Nant yn sesiwn mis Tachwedd, a daeth sawl un am baned, cacen a chawl. Yn anffodus, oherwydd salwch, doedd hi ddim yn bosib agor ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag, cyfrannwyd £200 a bwydydd tuag at fanc bwyd Dyffryn Clwyd yn Ninbych.

Bu Bryn Williams, y cogydd, yn destun y rhaglen *Sgwrs Dan y Lloer* o'i fwyty yn y Swistir ddiwedd mis Rhagfyr. Gallwch ei weld eto ar S4C Clic, https://www.s4c.cymru/clic/programme/880936580, gydag isdeitlau Cymraeg a Saesneg.

Cafodd diffibriliwr y pafiliwn yng Nghae Nant ei ddefnyddio'n ddiweddar ar gais gan wasanaeth ambiwlans Gogledd Cymru. Erbyn hyn mae'n barod i'w ddefnyddio eto mewn argyfwng. Diolch o galon unwaith eto i bawb a fu'n helpu i gael y teclyn yma i'r pentre.

Mae'r cygor cymuned yn dymuno diweddaru ei wefan ac os oes gan unrhyw un syniadau am beth i'w gynnwys arni, mae croeso i chi gysylltu â'r Clerc, Bryn Davies, ar rbrynd1@gmail.com.

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn | 6ed | Grŵp crefftau, 10am–4pm |
| Llun | 8fed | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Sadwrn | 13eg | Bore coffi – Dementia UK, 10–11.30am |
| Llun | 15fed | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mercher | 17eg | Y Gymdeithas Hanes – Rheilffyrdd Dyffryn Clwyd (Fiona Gale), 7.30–9.30pm |
| Sul | 21ain | Digwyddiad preifat – parti pen blwydd, 2.45pm–5pm |
| Llun | 22ain | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Sad | 27ain | Bore coffi – Capel y Dyffryn, 10–11.30am |
| Llun | 29ain | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |

**I hurio'r neuadd, cysylltwch ag Ivan Butler ar 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com.**

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 1af | Trefoil Guild, 2pm |
| Mawrth | 2il | Sefydliad y Merched, 7pm |
| Mawrth | 9fed | Clwb Llyfrau, 10–11am |
| Mercher | 10fed | Cyfarfod Pwyllgor *Llais Llandyrnog*, 7pm |
| Mawrth | 16eg | Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mercher | 17eg | Tuesday Club, 2pm |
| Llun | 22ain | Grŵp crefftau, gweu a chrosio, 10am |
| Mawrth | 23ain | Clwb Llyfrau, 10–11am |
| Llun | 29ain | Grŵp crefftau, gweu a chrosio, 10am |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

## Bore coffi

Neuadd y Pentre

Dydd Sadwrn 13 Ionawr am 10a.m.

Er budd

DementiaUK

Derbynnir yn ddiolchgar gyfraniadau at y stondin cynnyrch cartref

*Croeso cynnes i bawb*

Bydd clwb crefftau/gweu yn dechrau yn yr Ystafelloedd Coco am 6 wythnos, gan ddechrau dydd Llun, 22 Ionawr am 10 o'r gloch y bore. Os oes digon o ddiddordeb, bydd y cyfarfodydd yn parhau. Cysylltwch â Carolyn ar 01824 790122 am ragor o wybodaeth/i fynegi diddordeb.

## Bore coffi

**Neuadd y Pentre, Dydd Sadwrn 27 Ionawr**

**10.00 – 11.30**

**er budd Capel y Dyffryn**

**Derbynnir yn ddiolchgar gyfraniadau at y stondin cynnyrch cartref**

***Croeso cynnes i bawb***

## Oriau agor Swyddfa'r Post

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**

**9am–12pm, 2pm–5pm**

**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**

## Rhifau ffôn defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

**Townsend Supplies**

**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**

**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks



# Ysgol Bryn Clwyd



Dyma lun o'n hymweliad i weld y pantomeim *Peter Pan* yn Llandudno. Ffrindiau'r ysgol dalodd am y bws a'r lolipops – diolch yn fawr iddyn nhw.



Daeth gweithwyr yr elusen Cadwch Gymru'n Daclus aton ni i'n helpu i blannu perlysiau a ffrwythau yn ein gwelyau llysiau.





I orffen eu gwaith ar y thema 'Siocled', mae'r dosbarth Iau yn dylunio siocled ar gyfer bwyty Nant y Felin, Llanrhaeadr.




Darcie Hughes oedd yn fuddugol o blith disgyblion Ysgol Bryn Clwyd yn y gystadleuaeth i ddylunio cerdyn Nadolig i James Davies, A.S.

# Ysgol Bryn Clwyd: parhad



Yn ein cinio Nadolig fe gyflwynon ni anrheg i Mr Gwilym Evans i werthfawrogi ei waith fel llywodraethwr ysgol ers dros 40 mlynedd. Mae wedi bod yn enghraifft wych i'n holl blant ac yn gefnogaeth gyson i sawl aelod gwahanol o staff dros y blynyddoedd.



Diolch yn fawr i Mrs Tynan am y cinio Nadolig blasus iawn, gan y disgyblion a gan y trigolion a dderbyniodd y gwahoddiad i ymuno â nhw.





Roedd y gefnogaeth i'n ffair Nadolig yn anhygoel – noson hudolus yn cynnwys Sion Corn; Elsa, cymeriad o'r ffilm Frozen, a dau asyn – Ant a Dec. I ddechrau'r farchnad, canodd y plant garolau, gan roi pawb mewn hwyl dathlu'r Nadolig.

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

# CPD Llandyrnog – trem yn ôl dros 2023



Mae 2023 wedi bod yn flwyddyn o newidiadau i CPD Llandyrnog. Rhoddodd Jimmy McNally y gorau i reoli'r tîm ym mis Chwefror, a chynigiodd Sion Morris a David Lawson-Cooke reoli'r tîm ar y cyd. Ar ddiwedd tymor 2022/2023, roedd CPD Llandyrnog yn y 14eg safle yn y table, tymor siomedig iawn.

Ym mis Mawrth, rhoddodd Clive Jones y gorau i fod yn Gadeirydd y clwb, a chynigiodd Jimmy McNally fod yn Gadeirydd yn ei le.

Ym mis Gorffennaf, derbyniodd Sion Morris y cynnig i fod yn rheolwr parhaol. Cyflwynodd raglen hyfforddi ddwys, a daeth ag wynebau newydd i'r clwb. Un o'r rhain oedd Jack Cooledge, a ddaeth yn ffisiotherapydd a hyfforddwr y tîm, a chofrestrodd fel chwaraewr hefyd. Roedd yn awyddus iawn i godi lefelau ffitrwydd y tîm.

Ar ddechrau'r tymor, bu anafiadau'n ergyd i'r clwb. Cafodd Dave Lawson-Cooke anaf drwg i'w ffêr, a thorrodd Ben Green ei fraich mewn gêm 5-yr-ochr. Wedyn daeth rhagor o anafiadau – Dave Lawson-Cooke yn anafu'i ffêr eto, Rob Lawson yn cael anaf i'w ben-glin, a Joel Rowlands yn torri padell ei ben-glin. Cafodd Osian Audley friw cas ar ei ben-glin.

Ym mis Rhagfyr, rhoddodd Jimmy McNally y gorau i fod yn gadeirydd. Dywedodd Nick Hailes y byddai'n gadeirydd tan ddiwedd y tymor.

Mae'r clwb yn diolch i Top Mark Teamwear am y citiau newydd; Cooke Milking Equipment Ltd am noddi'r cit cartre; MHC UK Ltd am noddi'r cit oddi cartre; NW Parcels am noddi ein cit cynhesu; Clwyd Garden & Landscape am noddi crysau polo'r tîm; y Golden Lion, Llandyrnog a bwyty'r White Horse, Hendrerwydd am gael mynd yno ar ôl gemau; Townsend Takeaway am ddarparu pizza a sglodion ar ôl gemau, ac i Macron Sports Hub, Wrecsam am gynhyrchu nwyddau'r clwb. Diolch hefyd i'r holl gwmnïau lleol sy'n noddi'r byrddau o gwmpas y cae a pheli'r gemau.

Yn olaf, diolch yn fawr i'n cefnogwyr sy'n dod allan ym mhob tywydd, o wythnos i wythnos, i gefnogi'r tîm. Mae'r tîm yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

Dymuna'r clwb Flwyddyn Newydd lwyddiannus i bawb. Mi wnawn ni'ch gweld chi ddydd Sadwrn, 13 Ionawr, pan fyddwn yn chwarae CPD Cerrigydrudion oddi cartref.

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.

# Capel y Dyffryn




Bore Sul 17 Rhagfyr cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y Plant yng ngofal Gwenno, Dafydd a Lona. Cyflwynodd y plant, yn eu gwisgoedd lliwgar a thrawiadol, y ddrama draddodiadol wedi ei phlethu â drama fodern oedd yn pwysleisio'r gwerthoedd modern. Bu'r bobl ifanc yn cynorthwyo gydag unawdau, deuawd a darlleniadau. Yna cafwyd neges Nadolig gan y Parch Andras Iago. Gwasanaeth bendithiol iawn.



**Y Gymdeithas** Nos Lun 4 Rhagfyr rhoddodd Rhys, y Llywydd, groeso i Llŷr, Derwydd fu'n olrhain hanes datblygiadau ar ei fferm, a'r gwaith dyngarol mae wedi ei gyflawni trwy fynd â nwyddau adeiladu a bwyd i wahanol wledydd fel Wcráin a llawer o wledydd Affrica. Noson ddiddorol dros ben, a diolchwyd i bawb gan Rich. Yn y llun, o'r chwith: Rhys, Llŷr, a Richard.

Nos Lun 18 Rhagfyr, cynhaliwyd Parti Nadolig, dan nawdd Pwyllgor y Goeden Nadolig, gyda'r Festri dan ei sang! Mwynhawyd gwledd o fwyd fel arfer, cyn i Siôn Corn ymweld â'r plant. Yna cafwyd dawnsio a gemau i orffen y noson.

**Gwasanaethau mis Ionawr**

| | | |
|---|---|---|
| *07/01* | ***10.00*** | *Oedfa'r Fro -Dyffryn* |
| *14/01* | ***10.00*** | *Cyfarfod Gweddi* |
| *21/01* | *11.00* | *Parch. Andras Iago* |
| *28/01* | *9.45* | *Parch. Gareth Parry* |

GLYN EVANS AUTOCLINIC
Canolfan Trwsio Ceir
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA

GWAITH YSWIRIANT
TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU
CEIR I'W BENTHYG
GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR
01745 815141
07808970364
E-bost: evansautoclinic@btconnect.com

# Ffynidwydd Moel y Parc

Roedd y porthmyn ers llawer dydd yn cario ffrwyth y ffynidwydden – pinwydden yr Alban – yn eu pocedi bob tro ac yn eu plannu hwnt ac yma ar hyd eu llwybrau er mwyn i borthmyn y dyfodol wybod lle roedd yna groesffordd i gyfarfod neu loches dda am y noson. Roedd ffynidwydd yn tyfu'n gyflym, yn fythwyrdd ac yn dalach o lawer na'r coed cynhenid collddail.

Yn ôl yr hanes – y nifer fwyaf o goed, y gorau y llety neu'r croeso. Fel arfer, tair neu bump oedd y nifer. Mae gennym ni heddiw, yn does, ein gwestyau ' pum seren'? Wel roedd y porthmyn yn bell ar y blaen!

Rhaid cofio bod y porthmona'n mynd ymlaen o'r 1600au tan ddechrau'r 1800au pan ddaru Trevithick ddyfeisio'r trên cynta. Yn y man datblygodd Trevithick y trên i fod yn beiriant cryf masnachol a dod a'r rheilffordd i Ddyffryn Clwyd. Gyda dyfodiad y trenau, daeth symud anifeiliaid dros bellter maith ar droed i ben fwy neu lai dros nos. Mae nifer o lyfrau wedi eu hysgrifennu am y pwnc felly mi gewch chi wneud eich gwaith cartref eich hun. Roedd gan ein ffrind annwyl, Idris 'Steptoe' Evans ei ffordd ddihafal ei hun o ddweud straeon am y porthmyn yn Nyffryn Clwyd.

Yn ogystal â gyrru anifeiliaid, roedd byddigions yr ardal yn ymddiried yn llwyr yn y porthmyn i fynd â dogfennau cyfrinachol pwysig at eu cyfreithwyr yn Llundain. Ond wrth gwrs, roedd rhaid bod yn ofalus o'r lladron pen ffordd oedd yn bla. Efallai wir, heblaw am y porthmyn, fase ganddon ni ddim system bancio fel dan ni'n ei hadnabod heddiw.

Sefydlodd porthmon o'r enw David Jones fanc yng Nghymru yn Llanymddyfri ym 1799 – 'Banc yr Eidion Du' a gafodd ei gymryd drosodd gan Fanc Lloyds ddechrau'r 1900au. Roedd cael banc yn golygu nad oedd rhaid i'r porthmyn bellach gario llawer o arian i bob man, dim ond ei fancio a'i godi eto mewn tref arall, wedyn talu'r arian i'w gwerthwyr. Roedd y tyddynwyr a'r ffermwyr yn ymddiried yn llwyr yn y porthmyn i gael eu talu am eu stoc.

Gyda llaw, mae'n siŵr braidd bod rhai ohonoch yn meddwl mai Banc y Ddafad Ddu oedd y banc cynta. Yr enw swyddogol arno oedd Banc Aberystwyth a Thregaron, gafodd ei sefydlu gan John Evans o Lanbadarn fawr tua 1810. Ond yn 1814 aeth yr hwch drwy'r siop hwnnw .

Ta waeth, ble dwi'n mynd efo'r sgwrs?

Mae yna ffynidwydd wedi eu plannu ar hyd y Dyffryn mewn llefydd oedd yn bwysig i'r porthmyn – tai potes, eglwysi neu groesffyrdd. Meddyliwch er enghraifft am Hendrerwydd. Er bod y coed pin tal ysblennydd tu blaen i'r Ceffyl Gwyn wedi eu torri lawr bellach, yn eitha diweddar, edrychwch 'chydig yn bellach i'r dde ac mi welwch chi ffynidwydden dal iawn ger Buarth Mawr. Lle i'r stoc aros dros nos oedd hwn, dwi'n siŵr, a Buarth Bach oddi tano.



Yn Ffordd Ddŵr – bwthyn sy'n dyddio'n ôl i 1623, mae yna hanner dwsin o ffynidwydd wedi eu plannu yn fwriadol iawn yn wynebu ei

# Ffynidwydd Moel y Parc: Parhad

gilydd. Mae'n ddigon posib bod y rhain ymhlith y rhai hynaf yn yr ardal. Yn fwy diddorol byth, wrth balu'r ardd daeth Phil, perchennog y tŷ, ar draws darn arian – dimai 1789, efo *Macclesfield, Liverpool or Congleton* wedi ei ysgrifennu yn fân ar ei ymyl. Dim ond yn y trefi yma roedd modd gwario'r ddimai, felly pe byddai lladron pen ffordd yn ymosod ar y porthmyn, byddai'n rhaid iddyn nhw fynd yn bell i wario'r arian – fyddai'n werth dim yn y trefi cyfagos.

Mae yna ffynidwydden uchel iawn ym Mhlas Bennett hefyd, sy'n awgrymu ei fod yn fan lle roedd y porthmyn yn hel i brynu a gwerthu, efallai. Mae hanes cadair Plas Bennett yn ddiddorol – eisteddodd Major Bennett, perchennog yr eiddo, ar ei gadair tra roedd lladron penffordd yn rheibio ei gartre moethus, heb iddyn nhw ddeall ei fod o yn eistedd ar drysorau lu y teulu. Efallai wir fod rhywun mwy gwybodus na mi am gyfrannu a rhoi cefndir sut y bu i'r gadair adael Plas Bennett, a dychwelyd eto. Byddai honno'n stori werth ei chlywed!

Reit. Y rheswm dwi wedi ysgrifennu'r uchod ydi 'mod i wedi bod yn pendroni sawl gwaith wrth gael seibiant ar groesffordd Moel y Parc, ai dyma oedd bwriad y ffynidwydd tal yma? Mae'r llyfr gwych, *Coed yn ein Tirwedd,* wedi'i gyhoeddi gan AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, yn cadarnhau hyn ac mae'n gwneud rheswm – mae'n fan cyfarfod traciau o Aberchwiler, Afonwen ac ardal y Ddôl. Wedyn mi fase'r porthmyn yn mynd ymlaen ar hyd y trac drwy Nant Simon i lawr i Bont Llundain i brynu mwy o stoc. Fel arfer rhyw ddwy neu dair o hadau roedden nhw'n eu plannu, ond ar y groesffordd yma mae'n debyg bod yna goedlan gyfan – rhaid bod yna groeso mawr tua Moel y Parc 'na!

Ar ôl Pont Llundain, ymlaen at Landegla wedyn a oedd yn gyrchfan bwysig i'r porthmyn, efo un ar bymtheg o dai potes ar un adeg i ddisychedu'r porthmyn. Mi fydden nhw'n prynu a gwerthu popeth heblaw'r eidion mewn marchnad ger Y Crown, cyn mynd ymlaen i Wrecsam. Yr eidion wedyn yn mynd i Lundain, gan ddilyn ffordd a oedd wedi ei mapio yn glir efo cloddiau uchel bob ochr i sicrhau nad oedd yr eidion yn dianc, a llefydd i aros dros nos. Roedd siwrnai o dair i bedair wythnos o'u blaenau nes cyrraedd llociau neu *lairage* ar gyrion Llundain i'r eidion gael magu rhywfaint o bwysau ar ôl y daith hir.

Gobeithio wir y tro nesa byddwch chi'n crwydro, chwiliwch am y ffynidwydd 'na!

*Bryn Davies*




# Trefoil Guild

Cafodd yr aelodau ginio Nadolig ardderchog yng Nghlwb Golff Dinbych. Talodd pawb eu tanysgrifiadau blynyddol a chael anrheg Santa Cudd. Byddwn yn llunio rhaglen ym mis Ionawr a bydd y cyfarfod nesaf ym mis Chwefror.

# Hanesion Hazel

Mae gŵyl arall y Nadolig ar ben, a dyma adeg dda i daro'r botwm adnewyddu gyda blwyddyn newydd. Beth am wneud adduned blwyddyn newydd? Mae sawl un yn methu ar ôl ychydig ddyddiau neu wythnos, ond ceisiwch feddwl am un hawdd i chi'ch hun a fydd yn para tan y Pasg, o leia. Cadw'r car yn lân fydd fy adduned i, efallai. Mae olion trwyn y ci ar y ffenest ôl drwy'r amser, a'r adeg hon o'r flwyddyn mae'r ffyrdd mor fwdlyd, mae cadw'r car yn lân yn gallu bod yn dipyn o orchwyl, ond bydd eich car a'ch mecanic yn diolch i chi. Os nad ydych chi'n arddwr, beth am ystyried tyfu ychydig o lysiau? Neu i ni'r garddwyr profiadol, rhoi cynnig ar amrywiaeth newydd yn lle'r hen ffefrynnau?

Mae'r dyddiau'n dechrau ymestyn ac os ydych yn codi gyda'r wawr, efallai y byddwch yn ddigon ffodus i glywed rhai o'n hadar cyffredin fel aderyn y to, y robin a'r titw yn trydar. Bydd y bylbiau sy'n blodeuo yn y gwanwyn yn dod i'r golwg cyn bo hir. Yr eirlysiau yn ein lonydd ac ar ein cloddiau fydd y cyntaf yn 2024 i godi'u pennau drwy'r eira, yn bendant. Os cawn ni eira, wrth gwrs.

Rydyn ni'n fwy tebygol o weld eira ym mis Ionawr a mis Chwefror. Un o'r gaeafau a gafodd fwyaf o eira oedd 1947, ychydig cyn fy amser i, ond efallai bydd rhai ohonoch chi'n ei gofio neu wedi clywed eich rhieni'n sôn amdano. Gaeaf 1963 oedd yr oeraf ers mwy na 200 mlynedd, ac a gafodd yr enw 'y rhew mawr'. Yn bendant, rwy'n cofio gaeafau dechrau'r 1980au pan gawson ni'n cau i mewn gan yr eira am ddyddiau, neu dyna oedd yr argraff ges i, beth bynnag. Doedd dim rhewgell gan Mam yr adeg honno, felly 'gwirfoddolodd' Dad a fi, neu fe gawson ni'n 'hannog' gan Mam i gerdded i lawr i siop y pentre. Bustachu drwy'r eira trwchus, dringo dros gloddiau er mwyn i ni allu cerdded drwy'r caeau roedd yr eira wedi'i chwythu oddi arnyn nhw. Roedd y gwynt o'r dwyrain wedi codi'r eira a'i ollwng yn y lôn, yn creu twmpathau a oedd yn dod allan o'r cloddiau.



Doedd dim enw ar stormydd yr adeg honno, ond yn ystod un storm eira debyg, llwyddodd mab fy nghymydog i gael ei Land Rover yn sownd yn y lôn. Mae'r eira yn gallu bod yn ddiarhebol o ddrwg ar frig yr allt ar ôl fy nghartre i, cyn mynd i lawr i Fferm y Pentre. Wrth yrru adre, fe aeth i mewn i'r eira dwfn. Fe geisiodd yrru'r Land Rover drwy'r lluwchfeydd, ond fe fethodd a bu'n rhaid iddo adael y cerbyd yn y fan a'r lle. Erbyn y bore, y cyfan a oedd yn y golwg oedd darn bach o do'r Land Rover yn sbecian uwchben yr eira dwfn. Daeth JCB i'w lusgo allan, ac fel y gellwch ddisgwyl o Land Rover, chafodd ychydig o ddyddiau yn sownd mewn eira dwfn fawr ddim effaith arno, ac i fwrdd ag o ar ei daith adre.

Yn fwy diweddar yn ystod 'bwystfil y dwyrain' roedd chwythwr eira yn dod i fyny'r allt. Roedd hwn yn chwythu'r eira dros y cloddiau ac roedd gwylio hyn yn dipyn o ryfeddod. Ond fe ddaeth y swch eira heibio wedyn, a gwthio eira i fuarth y tŷ. Roeddwn i newydd glirio hwn er mwyn mynd i'r gwaith – roedd yr awyr yn las y diwrnod hwnnw, ac nid oherwydd y tywydd braf!

Hazel

# Dod i adnabod ... Sion Williams

Mae Sion yn un o gyfarwyddwyr cwmni Gamlins Law, yn bennaeth y tîm datrys anghydfodau, ac yn arbenigo ar faterion cyfreithiad masnachol.



**Beth yw dy atgof cynharaf?**
Wel am gwestiwn anodd! Mae gen i gof o gofleidio Ben y ci defaid o'r fferm drws nesaf i 'nghartref pan oeddwn yn fychan iawn ac nid llawer talach na Ben y ci bryd hynny. Mi roedd Ben yn gi ffeind iawn ac yn ymwelydd rheolaidd (dyddiol!) acw ac yn eistedd o flaen ffenest y gegin nes y byddai'n cael bwyd gan un ohonom.

**Sut wnest ti ddewis dy yrfa?**
Mi oedd achos llys O J Simpson yn yr Unol Daleithiau yn 1994/1995 yn ddylanwad mawr. Mi oeddwn wrth fy modd gyda holl ddrama'r achos llys ac yn ei ddilyn yn frwd, gan fod rhaglen deledu bob nos Sul yn crynhoi digwyddiadau'r wythnos cynt. Ar yr un pryd mi ddechreuais ddarllen llyfrau John Grisham oedd eto yn olrhain hanes cyfreithwyr a chwmnïau cyfreithiol yn yr Unol Daleithiau ac roeddwn wrth fy modd hefo'r byd yna. Dyna fu'r arweiniad cyntaf ac er bod byd cyfreithiol y Deyrnas Unedig yn wahanol iawn i ddrama O J Simpson a chymeriadau dychmygol John Grisham, dwi'm yn difaru dim.

**Pryd a pham ddest ti i Llandyrnog i fyw?**
Yn ystod Ebrill 2014, pan oedd Mati Nel yn 10 mis oed. Mi oeddwn i'n gweithio yn y swyddfa yn Rhuthun bryd hynny a Gwenan yn dysgu yn yr Wyddgrug a'r ddau ohonom yn gyrru i'r un cyfeiriad o Gonwy i fynd i'n swyddi. Dyma benderfynu chwilio am rywle nes i leihau'r trafeilio. Roedd y ddau ohonom yn gyfarwydd hefo pentref Llandyrnog ac yn awyddus i fod yn rhan o gymuned glòs a Chymreig ac felly roedd yn lle perffaith i ni.

**Beth rwyt ti'n hoffi ei weud pam nad wyt ti'n gweithio?**
Mae gen i fusnes tacsi llwyddiannus a chwsmeriaid ffyddlon iawn yn Mati Nel a Leusa Jên sydd angen eu danfon i, neu eu nôl o, rywle yn aml iawn! Ond o ddifrif, heblaw am dreulio amser hefo'r genod, dwi'n hoff iawn o ddarllen nofelau, llyfrau hanesyddol neu lyfrau hunangofiant, yn enwedig gan sêr o'r byd chwaraeon. Mae unrhyw gyfres ddrama yn ymwneud ag ymchwiliad i lofruddiaeth, ysbiwyr neu achos llys wastad yn plesio. Rwyf hefyd yn gefnogwr brwd o glwb pêl-droed Everton er nad ydi hynny wedi bod yn bleserus iawn yn ddiweddar!

**Petaet yn cael dy anfon i ynys bellennig, pa dri pheth fyddet ti'n mynd gyda ti, a pham?**
Ffôn – i gael siarad hefo'r genod.
Digon o lyfrau – i ladd amser.
Gwin coch – i leddfu unrhyw syched.

**Pwy yw dy arwr?**
Unrhyw un sy'n fodlon herio'r drefn neu'r sefydliad er lles eraill ac unrhyw un sy'n rhoi ei amser yn wirfoddol i helpu rhai sy'n llai ffodus nag o neu hi.

**Beth sy'n dy wneud di'n flin a beth sy'n dy wneud di'n hapus?**
Mae rhyfeloedd a'r dioddefaint anochel yn fy ngwneud yn flin ac yn fy nigalonni, ynghyd a chreulondeb tuag at anifeiliaid. Mi ydw i'n hapus iawn pan mae Everton yn ennill.

# Tuesday Club





Cafodd yr aelodau ginio Nadolig ardderchog yn y Drovers Arms, Rhewl ac rydym yn diolch yn fawr i Sam a Sion am eu gofal arbennig amdanon ni.

Cawsom ein tristáu'n fawr o glywed am farwolaeth Gwynfor Jones, ar y chwith yn y llun uchod – wedi'i dynnu dim ond wythnos cyn iddo'n gadael ni'n annisgwyl iawn. Cydymdeimlwn yn ddwys â Non ac Alun a'r teulu.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 17 Ionawr, ac mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni.

# Deffro'r gwanwyn?



Dyma genhinen pedr yn blodeuo ym Maes y Wern ar 17 Rhagfyr, y cynharaf yno erioed.

# Llan Llanast

Daeth y Nadolig ychydig yn gynnar i Landyrnog wrth i ni ddathlu'r geni yn Llan Llanast. Cofrestrodd y plant â'r milwr Rhufeinig (diolch, Mrs Tynan!). Fe wnaethon ni olygfa hyfryd wedi'i haddurno ag angylion a defaid, adeiladu'r preseb, a gwneud coronau, angylion, bugeiliaid, llusernau i'r stabl, Mair o lwy bren, a'r baban Iesu o fferins jeli!

Ger y preseb, fe glywson ni eto'r stori ryfeddol am eni Iesu, ac wedyn mwynhau parti i orffen y pnawn.

Ni fydd Llan Llanast ym mis Ionawr, ond byddwn yn ein holau ddydd Sul, 11 Chwefror, ac mae croeso i bawb ymuno â ni.

*Mary Steel*



*Mae Llan Llanast yn hwyl i'r hen ac i'r ifanc!*

**Gwasanaethau Ionawr yn St Tyrnog**

| | | |
|---|---|---|
| $7^{fed}$ | 11.15am | Cymun Bendigaid |
| $14^{eg}$ | 11.15am | Gweddi Foreol |
| $21^{ain}$ | 11.15am | Gweddi Foreol |
| $28^{ain}$ | 11.15am | Cymun Bendigaid |

Mae'r Parch. Martin Pritchard yn dymuno Blwyddyn Newydd hapus ac iach i ddarllenwyr *Llais Llandyrnog.*



# Rysáit

***Beef cobbler***
2 bwys stec stiwio
2 nionyn canolig eu maint, wedi'u pilio a'u torri'n ddarnau
1 foronen, wedi'i philio a'i sleisio
1 banasen, wedi'i philio a'i sleisio
1 owns braster
1 owns blawd plaen
1 ciwb isgell biff (*beef stock cube*)
Halen a phupur fel y dymunwch

I wneud y sgons:
½ pwys blawd codi
½ llwy de perlysiau cymysg
2 owns margarin
¼ peint o lefrith

Toddwch y braster a ffrïwch y nionod, y foronen, y banasen a'r cig nes ei fod wedi'i frownio ychydig. Rhowch y cyfan, gyda'r tomatos, mewn haenau mewn dysgl caserol. Rhowch ¾ peint o ddŵr berw ar ben y ciwb isgell. Ychwanegwch y blawd at y braster sydd wedi toddi, a choginiwch o am ychydig funudau. Ychwanegwch yr isgell, yr halen a'r papur, codwch nhw i'r berw a'u tywallt dros y cig. Gorchuddiwch y ddysgl.
Coginiwch y cymysgedd mewn popty cymedrol, 180 °C, Nwy Marc 4 am 1½ awr. Yn y cyfamser, gwnewch y sgons.
Cymysgwch y cynhwysion sych gyda'i gilydd, a rhwbiwch y margarin i mewn iddyn nhw.
Ychydig cyn i'r cig fod yn barod, ychwanegwch y llefrith at y cynhwysion sych a'u cymysgu i wneud toes meddal. Rholiwch hwn allan a thorrwch sgons allan ohono. Rhowch nhw ar ben y cig a'u coginio mewn popty poeth, 200 °C, Nwy Marc 6 am 20 munud arall, heb orchudd drostyn nhw.
Digon i 4.

*Margaret Williams*

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Sefydliad y Merched

Gwnaeth y grŵp gyfarfod ar 7fed Tachwedd, a chymryd rhan mewn gweithdy crefftau yn creu cardiau ag addurniadau Nadolig. Cafodd y grŵp hwyl, ac fel arfer cafwyd sgwrs gyfeillgar dros baned a bisged!

Aeth y grŵp i dafarn y *Drovers* yn Rhewl i gael cinio Nadolig ar y 5ed o Ragfyr. Daeth Santa Cudd ag anrhegion bach i bawb, ac fe gawson ni noson llawn hwyl a Chwis Nadolig.



Mae'r grŵp yn cyfarfod ar nos Fawrth cyntaf y mis yn yr Ystafelloedd Coco o 7 tan 9 o'r gloch. Yn y flwyddyn newydd bydd siaradwyr gwadd yn dod i bob cyfarfod i rannu eu diddordebau hefo ni.

Croeso cynnes i aelodau newydd ddod o hyd, a gweld a ydyn nhw'n mwynhau'r grŵp.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r ysgrifenyddes, Janeborthwick56@gmail.com.

# Clwb Probus

Mwynhaodd yr aelodau a'u gwesteion ginio Nadolig gwych yng ngwesty'r Oriel, Llanelwy. Y siaradwr ar ôl y cinio oedd Gareth Foulkes, Pentrefelin a soniodd am briddoedd a ffermio adfywiol. Cytunodd yr aelodau y bydden nhw'n hoffi ymweld â fferm Gareth yn y dyfodol i ddysgu rhagor am y pwnc.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Llun, 8 Ionawr pan fydd Celia Drew yn sôn am filwyr o Ganada yng ngwersyll Bae Cinmel.

Mae croeso cynnes i aelodau newydd bob amser. Am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan, denbighprobus.com, neu cysylltwch â'r swyddogaeth aelodaeth, Andrew Faulkner, Afaulkner@btinternet.com, 07542 022 391.

# Cyngor Cymuned Llandyrnog

Trafodwyd y materion canlynol yng nghyfarfod mis Rhagfyr:
Er nad oedd y plismon cymunedol yn bresennol oherwydd ymrwymiadau eraill, roedd wedi darparu adroddiad sylweddol. Nid oedd unrhyw ddigwyddiad yn y pentre wedi'i riportio, ond soniodd am y canlynol:

- Dwyn yn ystod y gaeaf/atal troseddau:
  - Gofalwch fod garejys a thai allan wedi'u cloi'n ddiogel. Gosodwch glychau drws fideo neu gamerâu teledu cylch cyfyng os yw'n bosib.
  - Riportiwch unrhyw bobl neu gerbydau amheus, gan roi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl (h.y. rhif cofrestru'r cerbyd).
  - Caewch eich llenni ar unwaith pan mae'n tywyllu. Os ydych yn mynd oddi cartref, gofynnwch i gymydog neu aelod o'r teulu barcio'i gar o flaen eich tŷ.
- Yfed a gyrru:
  - Mae'r ymgyrch gwrth yrru dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau yn cael ei gweithredu. Mae sawl un wedi'i ddal yn gadael tafarn ac yn gyrru dan ddylanwad alcohol (gan gynnwys ardal Rhuthun/ Dinbych) ac mae nifer wedi methu profion yfed a gyrru yn y bore, ar ôl bod yn yfed y noson gynt. Gallwch brynu bagiau chwythu – *breathalysers* – i chi eu defnyddio os ydych yn ansicr a ydych yn ddiogel i yrru, a'i bod yn gyfreithiol i chi wneud. Chwiliwch am 'Breathalyser UK' a phrynwch un o rywle y gallwch ymddiried ynddo.
- Achosion o dwyll:
  - Mae swyddogion lleol wedi delio â nifer o'r mathau hyn o ddigwyddiad yn ddiweddar. Fel arfer, nid yw'r rhai sy'n cael eu hamau o'r twyll yn lleol ac yn aml dydy hi ddim yn bosib i'r heddlu lleol wneud ymholiadau (heblaw am ofalu am les y dioddefwyr a rhoi cyngor i leihau'r siawns o ddioddef twyll eto). Rydyn ni'n annog unrhyw sy'n cael galwad ffôn neu e-bost annisgwyl i drafod y peth â ffrindiau a theulu, neu fynd i wefan Action Fraud www.actionfraud.police.uk, neu ffonio Action Fraud – 0300 123 2040, ac ystyried a ydyn nhw'n cael eu sgamio cyn dilyn unrhyw gyfarwyddiadau.

- Mae'r cwteri rhwng Cross Keys a'r gylchfan wedi'u clirio. Fodd bynnag, mae'r gwter ger cyffordd Cross Keys yn gwagu i mewn i Goed y Waen ac mae angen caniatâd y perchennog i fynd i mewn iddi a chlirio'r ffos. Mae'r gwaith ar y gweill gan Gyngor Sir Ddinbych.
- Mae'r Cyngor Sir wedi clirio'r palmant rhwng yr hufenfa a neuadd y pentref. Diolchwyd am yr ymdrech fawr hon ar fyr rybudd.
- Mae newidiadau i ddod i'r gwasanaethau casglu gwastraff. Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth yn brin, ond bydd gweithdy i gynghorau tref a chymuned yn Rhuthun, ddydd Iau, 8 Chwefror.
- Mae CSDd wedi cadarnhau nad yw'r lôn at faes parcio Maes Llan wedi'i mabwysiadu ac felly ni fydd yn ei chynnal. Roedd y Cyngh. Parry wedi cael malurion concrit i'w thrwsio dros dro. Nid oes neb yn sicr pwy sydd biau'r lôn.
- Mae'r cais am arian grant i ddarparu cyfleusterau ychwanegol i hwyluso cyfarfodydd hybrid o'r cyngor wedi'i gyflwyno i Fferm Wynt y Brenig.
- Mae'n bryd diweddaru gwefan y cyngor cymuned a phenderfynwyd gofyn i'r *Llais* am roi nodyn yn y rhifyn nesaf yn holi am syniadau gan unigolion a beth fydden nhw'n dymuno'i gynnwys ar y wefan.
- Roedd hi'n siomedig bod CSDd heb ateb i ymholiad am amserlenni bysus – neu eu diffyg.
- Penderfynwyd holi a oes modd diweddaru'r system wresogi yn yr Ystafelloedd Coco.